# Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan



Llais Cenedlaethol
Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru
Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
All Wales People First
The National Voice of People
with Learning Disabilities in Wales

## Adroddiad Blynyddol
2021-2022





**Cynhyrchwyd gan Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan 2022**

Lluniau gan Natasha Hirst; Lucy Hinksman; cyfranwyr eraill

Argraffwyd gan Zenith Media

# Cynnwys




Adroddiad Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol 4

Adroddiad y Prif Weithredwr 6

Cyllid 10

Cenhadaeth ac Amcanion 12

Covid 19 15

Y Cyngor Cenedlaethol 16

Tîm staff 19

**Gweithredu strategaeth MIRROR:**

Prif Weithredwr 20

Cynhadledd Flynyddol -AdFest 21

Talk Back 24

Gwefan & Cyfryngau Cymdeithasol 25

Cysylltu 26

LDMAG 32

Wythnos Anabledd Dysgu 32

Projectau 32

Cyllid 35

Bwrdd Cyfarwyddwyr 38

Aelodau 39



# Adroddiad  Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol

***"Roedd yn grêt i gyfarfod rhai pobl wyneb yn wyneb am y tro cyntaf, er bod cynrychiolwyr y canolbarth a'r gogledd wedi ymuno arlein. Roedd yn dda dod ein gilydd ond nid oedd cystal â chael pawb yn yr un ystafell"***

Unwaith eto roedd pandemig Covid wedi effeithio ein gwaith gydol y flwyddyn. Parhawyd i gynnal cyfarfodydd y Cyngor Cenedlaethol ar Zoom ac eithrio'r cyfarfod cyffredinol blynyddol a chyfarfod y cyngor cenedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Hydref. Wrth i ni barhau â'r cyfarfodydd cymysg, mae dal rhai aelodau o'r cyngor cenedlaethol nad wyf wedi eu cyfarfod yn bersonol. Profodd yn flwyddyn anodd.

Roeddem wedi dechrau dod allan o'r cyfnodau clo pan ddaeth Omicron i'r amlwg. Yn wir, mae rhai pobl gydag anableddau dysgu yn dal yn destun mwy o gyfyngiadau na phobl nid-anabl. Nid yw hynny'n deg. Fe wnaethom ein cyfraniad; wrth aros gartref, gwisgo mygydau ac ymdopi heb ein cymorth a gweithgareddau arferol. Ond, er bod rhai'n gallu cyfarfod ffrindiau ac adfer eu bywydau, nid yw hynny'n wir am bobl gydag anableddau dysgu.

Nid yw gwasanaethau dydd a seibiant wedi ailagor yn llwyr ac mae nifer staff gwasanaethau gofal wedi gostwng. Nid oes cymaint o wasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus chwaith ac mae llawer o gartrefi gofal yn dal i gyfyngu nifer yr ymwelwyr.

Roedd rhai llymeidiau o obaith yn ystod y flwyddyn. Parhaodd yr aelodau i leisio'u barn a dylanwadu ar bolisïau. Rhannwyd ein syniadau a rhestrwyd ein blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Gweithredu Anabledd Llywodraeth Cymru.

Pleidleisiwyd i gynyddu aelodaeth o'r cyngor cenedlaethol er mwyn cynnwys cynrychiolydd o'r gymuned LGBT+. Ymunodd Scott, y cynrychiolydd LGBT+ newydd â ni ym mis Mawrth. Rydym hefyd yn datblygu llwybr i ethol cynrychiolydd o'r cymunedau ethnig lleiafrifol.

Ein gobaith yw dychwelyd yn fwy agos at y normal yn ystod y flwyddyn nesaf.

**James Tyler - Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol**






# Adroddiad y Prif Weithredwr


***"Profodd yn flwyddyn heriol arall i'r mudiad. Parhaodd effeithiau Covid 19 i gyfyngu bywydau pawb"***



Gyda'r cyfyngiadau'n parhau, rwy'n credu bod pethau wedi bod yn fwy anodd i bawb. Ond er hynny, llwyddwyd i ymdopi gyda'n gilydd.

Roeddem yn siomedig o gynnal AdFest arlein unwaith eto ym Mehefin 2021, ond roedd cyfyngiadau Covid 19 wedi gorfodi hynny. Fodd bynnag, bachwyd ar y cyfle i symud AdFest o fis Hydref i fis Mehefin. Bydd hynny'n hwyluso trefnu digwyddiad go iawn fis Mehefin nesaf - gyda phawb yn bresennol, gobeithio!

Bydd hefyd yn ein helpu i drefnu'r digwyddiad yn yr un cyfnod â'r wythnos anableddau dysgu a dathlu ein rhan o fewn cymdeithas yn ystod haul yr haf. Diolch i'r cyngor cenedlaethol am gytuno i'r newid. Rwy'n credu bydd yn helpu i gynnal llwyddiant AdFest yn y dyfodol.



***"Rwy'n credu mai dyma'r cyfnod gwleidyddol mwyaf heriol i ni wynebu yn ystod fy mywyd. Rydym yn wynebu nifer o broblemau a gallent gael effaith ddifrifol ar fywydau ein haelodau. Mae'n gyfnod yn ein brwydr am gyfiawnder cymdeithasol. Gallai ein gwaith yn awr fod yn hanfodol wrth ddiogelu cenedlaethau o bobl gydag anableddau dysgu yng Nghymru"***




Erbyn hyn mae Brexit, anghyfiawnderau cymdeithasol yn deillio o Covid 19 ac yn awr yr argyfwng costau byw oherwydd y rhyfel yn Wcráin, yn rhoi pwysau mawr ar gymdeithas. O dan amgylchiadau fel hyn, yn aml y bobl dlotaf sy'n dioddef fwyaf, yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu. Y rheswm am hynny yw bod pobl gydag anableddau dysgu yn llai tebygol o fod mewn gwaith neu'n derbyn addysg na gweddill cymdeithas. Ond, eleni rwy'n pryderu fwyaf am y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae Llywodraeth San Steffan yn awgrymu cyflwyno mesur Hawliau Prydeinig yn ei lle. Rwy'n poeni am hynny oherwydd rwy'n credu bydd yn gwanhau ein hawliau dynol ac yn gwneud y Llywodraeth yn llai atebol os bydd yn bygwth ein hawliau dynol.

Bydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth i ni dros y cyfnod adrodd nesaf. Rwy'n ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru am ei hymrwymiad i ddiogelu hawliau'r boblogaeth ac am gwestiynu'r angen i gyflwyno mesur hawliau dynol newydd. Unwaith eto, gweithiodd y cyngor cenedlaethol

yn galed iawn (gweler adroddiad y Cyngor Cenedlaethol) ac fe wnaeth y cynghorau rhanbarthol waith da iawn ym maes hunaneiriolaeth (er cyfyngiadau Covid) ac wrth gomisiynu gwasanaethau. Er bod y cyfyngiadau wedi effeithio gweithgareddau'r cynghorau cenedlaethol a rhanbarthol, llwyddwyd i'w cynnal yn ôl yr arfer. Rhaid cydnabod gwaith Tracey Drew a'r tîm cyswllt aelodau am hynny, ynghyd â chydlynydd MIRROR Philippa Davies am leisio barn yr aelodau er y rhwystrau a wynebwyd.



Roedd gwaith gwych Kelly Stuart a'n tîm cyfathrebu hefyd yn allweddol wrth gasglu storiâu'r aelodau sy'n hysbysu ein gwaith. Mae'r storiâu hynny yn ein helpu i gynghori'r aelodau ar faterion o bwys a darparu ymateb i ddogfennau ymgynghorol y llywodraeth. Mae storiâu'r aelodau yn hanfodol i waith y mudiad. Storiâu, profiadau a gweledigaeth yr aelodau sy'n cynnal 'Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan.'

Diolch yn fawr iawn i'r rheolwraig busnes & cyllid, Victoria Sidwell-Brown am ei gwaith drwy'r flwyddyn. Mae wedi gweithio'n hyblyg gyda'r tîm i'n helpu i addasu projectau ar gyfer cyfnod Covid ac ymateb i anghenion yr aelodau. Yn ystod cyfnod covid roedd rhaid bod yn hyblyg er mwyn ymateb i anghenion yr aelodau.

Un o'r heriau rwyf wedi ystyried eleni fel arweinydd y tîm staff yw sut orau i gefnogi pobl, yn arbennig wrth eu gwerthfawrogi a symbylu, a chynnal eu llesiant. Bydd hynny'n hanfodol wrth



leisio barn y mudiad ar lefel genedlaethol, yn arbennig ar adeg pan fydd angen lleisio barn yr aelodau fwy nag erioed. Ond rhaid dweud nad yw'r staff wedi bod angen llawer o gymorth gen i o gwbl. Maent wedi dangos cryfder a dewrder er mwyn cynnal eu rolau'n broffesiynol mewn cyfnod anodd iawn.

Mae'n bwysig cydnabod cyfraniad pob aelod staff yn ystod y cyfnod. Mae prif weithredwr yn dibynnu ar ei dîm i wneud gwaith da. Nid wyf yn credu y gallwn ddymuno cael tîm gwell.

Yn olaf, diolch i'r grwpiau lleol a'r aelodau ar draws y wlad am eu gwaith a dyfalbarhad. Rwy'n gobeithio ein bod wedi cyrraedd dechrau diwedd ein taith Covid. Os allwn oroesi yn y cyfnod hwn, gallwn daclo unrhyw beth.

Ymlaen â ni!
LLWYDDIANT I HUNANEIRIOLAETH
Joe Powell





## Cyllid Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

***"Dechreuodd ail flwyddyn project Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2021. Ariannwyd drwy gronfa Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a lles Llywodraeth Cymru"***



Enw'r project yw - Hear Me, Include Me, Respect Me -sef project dinasyddiaeth a llesiant cymunedol.  Prif nod y project yw cydweithio ag aelodau grwpiau lleol er mwyn eu helpu i weithio gyda'u Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Wrth gysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar draws y wlad, y bwriad yw symbylu pobl gydag anableddau dysgu i gyd-gynllunio gwasanaethau.

Yn ogystal, dyma ail flwyddyn Strategaeth MIRROR - Adfywio Hunaneiriolaeth. Yn anffodus, er i ni wneud llawer o'r gwaith a gynlluniwyd, roedd addasu i weithio arlein a dim cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi golygu nad oedd modd gwario'r holl arian yn ein cyllideb.

Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £298,831 am y flwyddyn ariannol hon.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**





***"2020 - 2021 oedd chweched flwyddyn ein cysylltiad â phroject Engage to Change. Project Loteri Fawr/Llywodraeth Cymru 'Ar y Blaen 2' sy'n darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddi ar gyfer pobl 16-25 oed gydag anableddau dysgu ac awtistiaeth"***

Daeth ein partneriaeth gyda'r project i ben ar 31 Mai 2021 ond byddwn yn parhau i werthuso'r gwaith fel ymgynghorydd. Derbyniwyd £184,113 hyd at fis Mai 2021 (blwyddyn 5). O fis Mehefin 2021 (blwyddyn 6) derbyniwyd £5,836.14 am drefnu fforymau gwerthuso.

Dechreuodd project ffotograffiaeth dwy flynedd Drwy ein Llygaid ar 1 Ebrill 2021. Cyllidir gan grant Pobl a Llefydd y Loteri Fawr. Y nod yw codi proffil pobl gydag anableddau dysgu wrth hyrwyddo delweddau positif. Achosodd y pandemig ychydig o oedi ac o ganlyniad estynnwyd y project tan fis Rhagfyr 2022. Derbyniwyd £16,692 am y flwyddyn ariannol hon.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

"Through Our Eyes"








# Cenhadaeth ac Amcanion

## Cenhadaeth

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yw llais unedig grwpiau hunaneiriolaeth a phawb gydag anableddau dysgu yng Nghymru. Mae'n rhannu gwybodaeth er mynnu hawliau cyfartal a delweddau positif. Strategaeth MIRROR yw ein cynllun busnes, gyda'r amcanion yn dilyn egwyddorion hunaneiriolaeth MIRROR, sef:

## Amcanion

**1 - Aelodau**

- Talkback
- Cynghorau Cenedlaethol a Rhanbarthol
- AdFest
- Wythnos Anabledd Dysgu
- Datganiadau Safbwyntiau
- Gwefan & cyfryngau cymdeithasol
- Cysylltu â'r aelodau
- Grant Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru
- Lobio ac ymgyrchu
- Arolwg troseddau atgasedd
- Gwaith llesiant dros y gaeaf
- Teledu hunaneiriolaeth
- Cysylltu er Newid
- Drwy ein Llygaid



**2 - Syniadau**

- Cynghorau Cenedlaethol a Rhanbarthol
- Bwrdd Cyfarwyddwyr AWPF
- AdFest 2021
- Maniffesto Gwleidyddol 2021
- Cyfarfod cyffredinol blynyddol
- Projectau newydd





**3 - Hawliau**

- Cynghorau Cenedlaethol a Rhanbarthol
- Tîm cyswllt aelodau
- Hyfforddiant MIRROR
- Prif Weithredwr
- AdFest
- Grŵp Anableddau Dysgu Ymgynghorol (LDMAG)
- Fforwm Cydraddoldeb Anabledd
  Tasglu Hawliau Anabledd
- Lobio ac Ymgyrchu
- Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru
- Datganiadau Safbwyntiau
- Maniffesto 2021
- Gwaith anabledd
- British Institute of Human Rights (BIHR)
- Arolwg troseddau atgasedd
- Noddwr

**4 - Adlewyrchu**

- Cyngor Cenedlaethol
- Prif Weithredwr
- AdFest
- Profiadau aelodau
- Grant Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cynaladwy
- Polisïau, memorandwm ac erthyglau
- Adran Fasnach
- Swydd cydlynydd MIRROR
- Arolygon lles staff - Covid 19




**5 - Corff**


- Bwrdd Cyfarwyddwyr AWPF
- Memorandwm ac erthyglau
- Strategaeth Farchnata & Cyfathrebu
- Tîm staff
- Cydlynydd MIRROR
- Adran Fasnach

mirror
members ideas rights reflection organisation review

**6- Arolwg**

- Cynghorau Cenedlaethol a Rhanbarthol
- Ymchwilwyr annibynnol
- Cynghorau Cenedlaethol a Rhanbarthol

# Covid 19



***"Unwaith eto eleni, roedd rhaid gwneud y rhan fwyaf o'n gwaith arlein eleni. Cynhaliwyd rhai cyfarfodydd tîm a chyngor cenedlaethol wyneb yn wyneb. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol ym Marriott Hotel, Caerdydd ar 5 Hydref 2021"***

Gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith a gyllidwyd ond wrth wneud llawer o'r gwaith arlein ni wariwyd y gyllideb gyfan unwaith eto am 2021 - 2022

Nid oedd angen defnyddio unrhyw gronfeydd wrth gefn. Gofynnwyd am ganiatâd gan ein cyllidwyr i newid ein targedau (KPIs) ar gyfer 2021-22. O ganlyniad, gostyngwyd targedau presenoldeb cyfarfodydd y cynghorau cenedlaethol a rhanbarthol. Roedd rhaid gwneud hynny oherwydd nid yw pawb yn gallu cael cymorth a'r dechnoleg i ymuno â chyfarfodydd.

Roedd llawer o weithgareddau project Drwy ein Llygaid hefyd wedi digwydd arlein.

Y gobaith oedd helpu aelodau newydd i ymuno ac annog yr aelodau cyfredol i adnewyddu, ond nid oedd yn bosibl gwneud y gwaith yn ôl ein cynlluniau. Er y cyfyngiadau covid, mae nifer yr aelodau wedi para'n sefydlog.




# Y Cyngor Cenedlaethol

**Cadeirydd**
James Tyler
Sir Benfro



**Is-gadeirydd**
Simon Richards
Caerdydd





Sammy Tahramanis - Blaenau Gwent
Samantha Hall - Sir Gâr
Bradley Okeefe - Merthyr Tudful
Bryn Owen - Sir Ddinbych
Richard Williams - Abertawe
Ffion Poole - Caerffili
Gary Angel - Sir y Fflint
Harry Rendell - Gwynedd
Kara Williams - Castell-nedd Porth Talbot
Bethan Kench - Ceredigion
Raymond Byles - Benybont
Rebecca Chick - Cwm Taf
Rebecca Morgan - Powys
Rhiannon Currie - Casnewydd
Richard Redmond - Conwy
Sarah Duke - Torfaen
Sarah Griffiths - Sir Fynwy
David Sweeting - Bro Morgannwg
Scott Wilson - Cynrychiolydd LGBTQ+




**“Y Cyngor Cenedlaethol sy’n llywio ein gweledigaeth er mwyn cael barn grwpiau hunaneiriolaeth ar draws y wlad.”**



Cyfarfu’r Cyngor Cenedlaethol chwe gwaith eleni. Mwy na’r flwyddyn flaenorol oherwydd roedd yr aelodau wedi gofyn am chwe chyfarfod byr yn hytrach na phedwar hir. Trefnwyd y rhan fwyaf ar Zoom oherwydd y pandemig. Cynhaliwyd y cyfarfod ar 6 Hydref 2021 wyneb yn wneb ac ar Zoom.

Targed presenoldeb arferol y Cyngor Cenedlaethol yw 70%. Gostyngwyd i 50% unwaith eto eleni oherwydd y cyfyngiadau. Presenoldeb cyfartalog cyfarfodydd y cyngor cenedlaethol am y cyfnod oedd 67%.

Unwaith eto eleni, gohiriwyd cyfarfodydd is-grwpiau ar ddatganiadau safbwyntiau, cynyddu aelodaeth, a lobio ac ymgyrchu oherwydd yr heriau o drefnu cyfarfodydd arlein a’r pwysau cynyddol ar grwpiau hunaneiriolaeth yn ystod cyfnod anodd.

## Rhan o waith y Cyngor Cenedlaethol eleni

**Ehangu cynrychiolaeth**
Cynrychiolydd LGBT+
Ymuno ag Inclusion Europe. Cynrychiolydd ar European Self-advocacy Network

**Trafnidiaeth**

Cydweithio â Stagecoach i roi ymateb ar wasanaethau bysys



**Arolwg**
Dadansoddi canlyniadau ymchwil annibynnol ar AWPF
Adolygu'r memorandwm ac erthyglau





**Covid 19**
Dadansoddi canlyniadau cynnar ymchwil Covid 19 mewn partneriaeth â chyrff a phrifysgolion

**Cynghorau Rhanbarthol**
Gwaith gyda'r byrddau partneriaeth i gynllunio gwasanaethau rhanbarthol



**AdFest**
Cynllunio AdFest 2022

Darparu ymateb i AdFest 2021

# Tîm staff



**Joe Powell**
Prif Weithredwr



**Kelly Stuart**
Rheolwr Polisi & Cyfathrebu



**Philippa Davies**
Cydlynydd MIRROR



**Victoria Sidwell-Brown**
Rheolwr Busnes & Cyllid



**Tracey Drew**
Ymgynghorydd Cysylltu â'r Aelodau



**Sarah Ansell**
Swyddog Cymorth



**Natasha Hirst**
Rheolwr Project Drwy ein Llygaid



**Gerraint Jones-Griffiths**
Gweithiwr Maes



**Claire Morgan**
Cynorthwyydd Gweinyddol Busnes & Cyfathrebu



**Lucy Hinksman**
Gweithiwr a Ffotograffydd Project Drwy ein Llygaid



## Prif Weithredwr

Mae gan ein Prif Weithredwr, Joe Powell, brofiad o fyw mewn cartrefi gofal anableddau dysgu ac mae wedi cynnal ei rôl llawn amser gyda'r elusen yn y cyfnod adrodd hwn.

Roedd Joe wedi ein cynrychioli mewn dros 15 fforwm, yn cynnwys: Grŵp LDMAG (Grŵp Gweinidogion Ymgynghorol ar Anableddau Dysgu; Consortiwm Trydydd Sector gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru; Bwrdd Tyndra Atgasedd & Cymunedol Llywodraeth Cymru; Grŵp Gweithredu LGBT; Cod Ymarfer Ymddygiad Heriol; Fforwm Cydraddoldeb Anabledd; British Institute of Human Rights; Fforwm Rhanddeiliaid Iechyd Cyhoeddus Cymru; Grŵp Cyfreithlondeb Atebolrwydd Heddlu; Grŵp Covid ADSS Cymru; Grŵp Rhanddeiliaid Unigrwydd ac Ynysu; Tasglu Hawliau Anabledd.

Yn ystod y flwyddyn cyfarfu Joe â grwpiau hunaneiriolaeth 9 gwaith, gan ddilyn ei ymrwymiad i gyfarfod o leiaf 8 grŵp bob blwyddyn.

Roedd Joe ar gael i siarad gydag aelodau ar bob diwrnod gwaith yn ystod y pandemig.

Yn ogystal, siaradodd mewn sawl digwyddiad allweddol er mwyn lleisio barn yr aelodau, yn cynnwys digwyddiadau rhithwir yn ystod y cyfnodau clo.




# Cynhadledd Flynyddol: Adfest 2021



**All Wales People1st** "Eleni rydym yn dathlu pobl gydag anableddau dysgu ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiant" James Tyler - **@AllWalesPF** National Council Chair **#LDAdFest2021**



**Fran O'Hara Remote** **#graphicrecording** map o un o fy hoff ddigwyddiadau blynyddol: **@AllWalesPF** conference. Trafod thema #learningdisability #pride "Proud to have a LD, we have a lot to offer" #advocacy & #coproduction in action **#LDAdFest2021** & #LDPride #Wales @scarletdesigngr



**All Wales People First** **@AllWalesPF** Gerraint wedi agor parti **#LDAdFest2021**. Edrychwch ar y lluniau face swop y tîm - brilliant! Ydych chi am ymuno â ni i gael hwyl a dawns? Byddwn yma tan yr hwyr...




## AdFest

**"Mewn gwlad sy'n edrych i gynnwys pawb fel dinasyddion actif, gallai'r digwyddiad hwn fod yn gyfle pwysig i bennu sut am ddangos, cynnwys a pharchu ein hunain" - Joe Powell**

Unwaith eto, cynhaliwyd AdFest 2021 arlein, gan ei symud o fis Hydref i fis Mehefin er mwyn cyd-redeg ag Wythnos Anableddau Dysgu.

Penderfynodd yr aelodau dylai AdFest 2021 ganolbwyntio ar falchder anableddau dysgu. Y siaradwr allweddol oedd Syr Robert Martin, Pobl yn Gyntaf Seland Newydd. Mae gan Syr Robert brofiad o fyw mewn sefydliadau ac wedi bod yn aelod o bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl gydag anableddau ers 2017. Cynhaliwyd AdFest drwy'r dydd ac i'r nos, gan gynnwys y prif ddigwyddiad; gwobrau MIRROR; gŵyl yr ymylon; parti pride parade Gerraint. Daeth 64 person i AdFest.

Cafodd yr aelodau gyfle i leisio barn yn y sesiwn trafod (Devil's Advocate)
*"Pan oeddwn yn iau, roedd pobl yn defnyddio geiriau fel 'isnormal' a 'spastic' ac rwy'n falch o'm cyfraniad i helpu i newid y labeli hynny";"rwy'n falch o fod yn berson gydag anabledd dysgu, mae'n rhan ohonof fel person; "Mae taclo heriau yn ein gwneud yn gryfach."*
*"Wrth fynd yn hŷn, rwyf wedi derbyn fy sefyllfa"*












mirror
members ideas rights reflection organisation review

Enillwyr **gwobrau MIRROR**:

**Gwobr Aelod** er cof am Linton Gower - Catherine Williams a Kelsey Shaw, Gorllewin Morgannwg

**Gwobr Syniadau** - Dwan Gullis, Pobl yn Gyntaf Caerdydd

**Gwobr Hawliau** - Jack Cavannah

**Gwobr Adlewyrchu** - Stacey Traylor, Pobl yn Gyntaf y Fro

**Gwobr Corff** - Pobl yn Gyntaf Cwm Taf, Pauline Carter

**Gwobr Arolwg** - Tina Larner, Pobl yn Gyntaf Penybont



David Whittle oedd cadeirydd y **digwyddiad ymylol**, a ddechreuodd am 6pm.
Cafwyd cyflwyniad gan Michelle Williams a Paul Mazurek, tîm cydweithio gogledd Cymru, am gyfweld pobl ar Facebook. Roedd aelodau Pobl yn Gyntaf Cwm Taf wedi gwneud cyflwyniad ar eu gwaith wrth helpu gyda geiriau anodd. Cyhaliwyd cwis gan Ffion Poole, Pobl yn Gyntaf Caerffili. Roedd Tracey Drew yn y stwidio yn cynnal gweithdy hunan arlunio - roedd pawb wedi cael sbort!
Ac roedd yr aelodau wedi cael hwyl tan yr hwyr mewn parti **Gerraint**.

Llais Cenedlaethol Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

All Wales People First

The National Voice of People with Learning Disabilities in Wales

# All Wales People First

# Talk Back

***The National Voice of People with Learning Disabilities in Wales***



Talk Back yw ein cylchlythyr cenedlaethol. Mae copi ar ein gwefan. Kelly Stuart sy'n golygu a chynhyrchu'r cylchlythyr. Dosbarthwyd Talk Back yn y gwanwyn, haf, hydref a'r gaeaf, a rhoir copi ar y wefan. Roedd yn cynnwys erthyglau am…



**Project drwy ein Llygaid**

**Newyddion gan y prif weithredwr**

**Newyddion rhanbarthol gan grwpiau hunaneiriolaeth, yn cynnwys:**

Project Prestatyn 'Learn to Teach - Digital Inclusion for us'

Grŵp Cyfranogiad Gogledd Cymru

Grŵp Ffocws Ailgysylltu Pobl yn Gyntaf Caerffili

Project 'Full Circle' Pobl yn Gyntaf Cwm Taf

Grwpiau cerdded a siarad Pobl yn Gyntaf Sir Gâr

Marwolaeth aelod AWPF Vicky Lanfear, Pobl yn Gyntaf Sir Gâr

Project 'Our Health, Our Voice' Pobl yn Gyntaf Caerdydd

Sefydlu grwpiau hunaneiriolaeth LGBT+ Roaring Môn a Rainbow Gogs yr Enfys

Gwaith tîm ymgynghorol Pobl yn Gyntaf Penybont gydag awdurdodau lleol am effeithiau Covid




# Gwefan & cyfryngau cymdeithasol




Mae'r wefan wedi bod yn gyfrwng pwysig i rannu gwybodaeth gyda'r aelodau. Postiwyd newyddion yn rheolaidd ar bob platfform, yn cynnwys erthyglau Joe, storiâu aelodau, newyddion a fideos covid, polisïau MIRROR, adnoddau defnyddiol.

Cynyddodd nifer ein dilynwyr ar bob platfform bob mis.



204 dilynwr ar Instagram - 52 mwy na'r llynedd
1329 dilynwr ar Facebook - 319 mwy na'r llynedd
2677 dilynwr ar Twitter - 509 mwy na'r llynedd

**All Wales People First** @ AllWalesPF 23/2/22
"Ein prif weithredwr Joe Powell wedi cyflwyno adroddiad ar brofiadau aelodau wrth ostwng cyfyngiadau Covid. Darllenwch am ganlyniadau annisgwyl y cyfnod, megis canolfannau dydd yn parhau ar gau a phroblemau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus"




# Cysylltu â'r aelodau


Rydym wedi rhannu profiadau aelodau drwy Talkback; dyddiadur y wefan; cyfryngau cymdeithasol; fideos ac adroddiadau.

Yn ogystal parhawyd i rannu profiadau a storiâu aelodau gyda Llywodraeth Cymru, cyrff trydydd sector ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er hysbysu newidiadau er gwell ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn ystod ac ar ôl Covid 19.

Bydd rhannu'r profiadau hynny nid yn unig yn dangos ein gwaith i weithredu strategaeth MIRROR, ond hefyd yn ein helpu i lunio adroddiadau, siapio polisïau Llywodraeth Cymru a llywio ein gwaith yn y dyfodol.
Dywedodd yr aelodau wrthym nad oedd digon o wybodaeth ar gael am y pandemig a'r rheolau cymwys. Mewn ymateb i gais yr aelodau, cynhyrchwyd fideos newyddion Cymraeg a Saesneg bob wythnos drwy gydol y pandemig. Gwnaed hynny mewn partneriaeth â phroject Engage to Change. Diolch yn fawr i Gerraint Jones Griffiths, gweithiwr maes ac aelod AWPF James Andrew am gyflwyno'r fideos.

Yn ogystal, cynhaliodd Gerraint sesiynau SATV a chlwb nos bob pythefnos ar Zoom drwy gydol y cyfnod.





# Cysylltu: Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae cydlynydd Mirror Philippa wedi gweithio i helpu grwpiau i ddefnyddio pecyn polisïau Mirror ac wedi rhannu'r pecyn Bwrdd diwygiedig gyda grwpiau. Yn ogystal helpodd y  grwpiau i weithredu egwyddorion y pecyn o fewn eu trefniadau llywodraethu.

Ar ben hynny lluniodd Philippa hyfforddiant llywodraethu ar gyfer grwpiau lleol, gan ganolbwyntio ar beth yw llywodraethu da a holi pa gymorth roedd grwpiau angen gan y Mudiad. Darparodd Philippa un sesiwn hyfforddi cenedlaethol a dau sesiwn rhanbarthol.

Mae ein cynghorau rhanbarthol yn is-grwpiau o'r cyngor cenedlaethol. Cynhaliwyd 23 cyfarfod rhanbarthol yn ystod y cyfnod. Yr ymgynghorydd cyswllt aelodau sy'n trefnu a chefnogi cyfarfodydd y cynghorau cenedlaethol a rhanbarthol.

Lluniodd Philippa adroddiad am weithgaredd y cynghorau rhanbarthol a'u gwaith gyda'r byrddau partneriaeth rhanbarthol a'r is-grwpiau partneriaeth rhanbarthol. Rhannwyd yr adroddiad gyda Llywodraeth Cymru a bwrdd cyfarwyddwyr AWPF.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod SWAN yn y cyfnod, sy'n rhoi cyfle i weithwyr cymorth rannu heriau, newyddion hunaneiriolaeth a beth sy'n digwydd yn eu hardaloedd.





## Cysylltu â chyrff eraill

Cysylltodd yr aelodau â phartner gyrff er mwyn adolygu'r fframwaith cydraddoldeb iechyd; er mesur effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru a gwirio deunyddiau diogelu Gofal Cymdeithasol Cymru.
Defnyddiwyd yr hyn a ddywedodd yr aelodau wrthym wrth baratoi sawl adroddiad, gan rannu'r wybodaeth ar ein gwefan a gyda llunwyr penderfyniadau, a byddwn yn eu defnyddio i lywio ein gwaith yn y dyfodol.





## Cysylltu â grwpiau hunaneiriolaeth

Penderfynwyd cysylltu mwy â'r aelodau a grwpiau hunaneiriolaeth er mwyn eu helpu ar gyfnod anodd. Roedd cydlynydd Mirror a'r prif weithredwr wedi gwrando ar brofiadau grwpiau wrth weithredu hunaneiriolaeth ar draws y wlad, ac wedi hysbysu Llywodraeth Cymru o'r profiadau hynny.
Yn ogystal, roedd cydlynydd MIRROR wedi llunio adroddiad yn esbonio profiadau grwpiau hunaneiriolaeth o gydweithio â byrddau partneriaeth rhanbarthol er mwyn cynllunio gwasanaethau lleol.

# Cysylltu: Ymgynghoriadau





Darparwyd ymateb i'r ymgynghoriadau dilynol yn ystod y cyfnod:
Newid Llefydd (Llywodraeth Cymru); Cynllun Gweithredu LGBT+ (Llywodraeth Cymru); Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (Llywodraeth Cymru); Ail-gydbwyso gofal a chymorth (Llywodraeth Cymru); Cynllun Gweithredu Anableddau Dysgu Strategol 2021-2026 (Llywodraeth Cymru); Anghydraddoldebau iechyd Meddwl, galwad am dystiolaeth (Senedd Cymru); Ymchwiliad System Budd-daliadau Cymru (Senedd San Steffan); Siapio cymorth y dyfodol: iechyd ac anabledd (Adran Gwaith & Pensiynau); Moderneiddio Atwrneiaeth Arhosol



## Datganiadau safbwyntiau ac ymgyrchu



Yn ystod y cyfnod lluniwyd datganiad safbwynt Trawsryweddol.

**Ymgyrchwyd ar yr isod:**

- Profiadau gwael pobl gydag anableddau dysgu yn ystod Covid 19
- Hawliau dynol
- Diogelu hunaneiriolaeth

**Cyfrannwyd at:** ● adroddiad Locked out, Hidden Lives

- Galwad ar y cyd i Lywodraeth San Steffan ddarparu cymorth ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu yn Wcráin



# Hunaneiriolaeth: ymchwil er siapio'r dyfodol

Mae AWPF yn dal yn bryderus am ddyfodol hunaneiriolaeth.

Dechreuodd Joe grynhoi profiadau cyrff hunaneiriolaeth a grwpiau eiriolaeth eraill yng Nghymru er mwyn hysbysu Llywodraeth Cymru o gyflwr hunaneiriolaeth ar draws y wlad.

.






## Hawliau dynol

Mae Joe yn aelod o fwrdd BIHR (British Institute of Human Rights).
Cydweithiwyd â BIHR, Pobl yn Gyntaf Sir Benfro a chyrff eraill er mwyn:

- Galw am broses ymgynghori agored (estynnwyd y cyfnod ymgynghori ar gyfer pobl anabl o ganlyniad.
- Cysylltu â'r broses ymgynghori a helpu aelodau unigol i gysylltu.
- Codi ymwybyddiaeth o'r posibl effeithiau o gyflwyno Mesur Hawliau newydd i gymryd lle'r Ddeddf Hawliau Dynol.



# Arolwg troseddau atgasedd



Cydweithiodd AWPF â grwpiau lleol er mwyn ymchwilio gwaith troseddau atgasedd gyda'r aelodau.

Bydd yr arolwg yn darparu'r data cyntaf am droseddau atgasedd anableddau dysgu yng Nghymru. Cyflwynwyd yr arolwg ar 31 Mawrth 2022.



## Adran fasnach

Cydweithiodd y bwrdd â'r cyngor cenedlaethol â Social Firms Wales ar opsiynau i sefydlu adran fasnach AWPF.
Edrychwyd ar opsiynau cyfreithiol ac ariannol a bydd y cyngor cenedlaethol yn eu trafod yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Y cyngor cenedlaethol fydd yn pennu os am sefydlu adran fasnach.
Os bydd am sefydlu adran fasnach, bydd yn pennu ei gwaith ac yn trafod sut i'w sefydlu.

# Grŵp Anabledd Dysgu Ymgynghorol (LDMAG)









Cynhaliwyd cyfarfodydd LDMAG ar blatfformau fideo gynadledda unwaith eto oherwydd y pandemig.

Roedd cynrychiolwyr AWPF ym mhob cyfarfod LDMAG, sef:
Joe Powell, prif weithredwr; Sophie Hinksman - cadeirydd ac aelod Pobl yn Gyntaf Sir Benfro; Lynne Evans, aelod Pobl yn Gyntaf Cwm Taf; Michelle Williams, aelod Conwy Connect.

Roedd Joe yn gadeirydd pedwar grŵp tasg a gorffen LDMAG a edrychodd ar y cynllun nesaf ar ôl gorffen y rhaglen Gwella Bywydau.

Lluniodd Joe adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Defnyddir fel sail i strategaeth anabledd dysgu newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ni chyflwynwyd y strategaeth newydd yn y cyfnod adrodd hwn.




## Wythnos Anabledd Dysgu

Trefnodd Gerraint Jones-Griffiths, gweithiwr maes, sesiwn SATV yn ystod yr wythnos, gan ofyn yr aelodau sut fyddai Cymru yn edrych ymhen 30 blynedd o drin pobl gydag anableddau dysgu yn gyfartal o fewn cymdeithas. Cyfrannodd hynny at adroddiad Joe i LDMAG am amcanion strategaeth anabledd dysgu newydd.

Penderfynodd y cyngor cenedlaethol symud AdFest i'r un cyfnod â'r wythnos anabledd dysgu.



## Engage to Change

Trefnwyd dau ddigwyddiad gwerthuso ar gyfer y project, un ym Mhrestatyn a'r llall yng Nghaerdydd.

Lluniwyd adroddiad ar ymateb yr aelodau a dosbarthwyd i bartneriaid y project.

Trosglwyddwyd swydd y prif lysgennad i Anabledd Dysgu Cymru.

Diddymwyd swyddi'r llysgenhadon.

# Project Drwy ein Llygaid



Cyllidir y project ffotograffiaeth hwn gan Gronfa'r Loteri Fawr. Dechreuodd ar 1 Ebrill 2020 a'i nod yw cael pobl gydag anableddau dysgu i gyfrannu at gynllunio deunyddiau'n dangos sut hoffent gael eu disgrifio ar y cyfryngau.

Roedd rhaid newid rhai dulliau gweithredu'r project oherwydd yr angen i wneud llawer o'r gwaith arlein. O ganlyniad nid oedd yn bosibl cymryd cymaint o luniau ag y bwriadwyd. Bydd y project yn dod i ben ar 31 Rhagfyr, yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Yn ystod y cyfnod, trefnwyd:

- Pedwar sesiwn arlein i drafod rolau a phrofiadau gydag aelodau.
- Grŵp llywio project er mwyn dewis delweddau a memes ar gyfer y project.
- Golygu'r delweddau ar gyfer yr arddangosfa derfynol.
- Cynllunio'r arddangosfa yn y Senedd.
- Gweithdai datblygu sgiliau i ddysgu aelodau am y cyfryngau cymdeithasol a sgiliau ffotograffiaeth.
- Ffilmio'r project a thynnu lluniau.

# Cyllid Pobl yn Gyntaf Cymru Gyntaf 2021-2022





| | |
|---|---|
| Incwm | £430,723 |
| Llai gwariant | £396,131 |
| Gwahaniaeth | £ 34,592 |







# O ble daeth yr arian

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | |
| Hear me, Include me, Respect me | £302,831 |
| **Llywodraeth Cymru** | |
| gwaith troseddau atgasedd | £ 9,000 |
| **Llywodraeth Cymru Pwysau'r gaeaf** | £ 21,000 |
| **Loteri** Engage to Change | £ 6,750 |
| **Loteri** Drwy ein Llygaid | £ 27,093 |
| **Cronfa Gyfranogi Gogledd Cymru** | £ 30,000 |
| Gyda'n Gilydd Gogledd Cymru | |
| **Incwm arall** | £ 34,049 |
| | |
| **Cyfanswm** | **£430,723** |

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND



# Gwario'r arian

| | |
|---|---|
| Cynadleddau & tanysgrifiadau | £ 50,324 |
| Costau staff (cyflogau & pensiynau) | £ 227,252 |
| Dibrisiant | £ 1,332 |
| Cyfreithiol & proffesiynol | £ 15,929 |
| Costau swyddfa | £ 62,062 |
| Costau cyfarfodydd | £ 1,760 |
| Monitro a gwerthuso | £ 2,850 |
| Cyngor Cenedlaethol a Rhanbarthol | £ 10,827 |
| Recriwtio | £ 1,020 |
| Teithio & cynhaliaeth staff | £ 14,339 |
| Costau ffôn | £ 1,931 |
| Hyfforddiant a digwyddiadau | £ 6,505 |
| **Cyfanswm gwariant** | **£396,131** |





# Bwrdd Cyfarwyddwyr





David Whittle - Cyd-gadeirydd
Ruth Northway Cyd-gadeirydd
John Thomas - Trysorydd
Donna Reeve
Margaret Flynn
Victoria Jones
Bob Rhodes
Simon Richards
James Tyler
Lee Ellery





















# Aelodau llawn

| | | |
|---|---|---|
| Adam | Bartle | Penybont |
| Adam | Dawkins | Abertawe |
| Adam | Elameer | Abertawe |
| Adam | White | Penybont |
| Adam | Williams | Caerffili |
| Adrian | Williams | Gwynedd |
| Alan | Williams | Blaenau Gwent |
| Aled | Lewis | Sir Gaerfyrddin |
| Alex | Perry | Casnewydd |
| Alex | Roberts | Caerffili |
| Alex | Wooler | Caerffili |
| Alex D. | Stevenson | Bro Morgannwg |
| Alison | Szigetvari | RCT |
| Alun | Matthews | Penybont |
| Amy | Barrett | Sir Benfro |
| Amy | Jones | Caerffili |
| Andrea | Davies | Abertawe |
| Andrew | Carslake | Sir Fynwy |
| Andrew | Davies | Llanelli |
| Andrew | Evans | Abertawe |
| Andrew | Gapa | Torfaen |
| Andrew | May | Gwynedd |
| Andrew | Wellington | Castell-nedd |
| Aneurin | Williams | Caerffili |
| Angelo | Tahramanis | Blaenau Gwent |
| Angie | Edwards | Sir Gaerfyrddin |
| Anita | Clasby | Ceredigion |
| Ann | Jones | Sir Gaerfyrddin |
| Ann | Williams | Castell-nedd |
| Anna | Howell | Sir Benfro |
| Anne | Luxton | Torfaen |
| Anthony | Daniels | Penybont |
| Anthony | Davies | Caerffili |
| Anthony | Higgs | Torfaen |
| Anthony | Mitchell | Caerdydd |
| Arthur | Pritchard | Ynys Mon |
| Ashley | Smith | Caerffili |
| Becky | Tweedle | Penybont |
| Ben | Jones | RCT |
| Ben | Learoyd | Ceredigion |
| Ben | Taylor | Bro Morgannwg |
| Beryl | Woodfine | Powys |
| Bethan | Foxall | Gwynedd |
| Bethan M. | Evans | Gwynedd |
| Bethan | Kench | Ceredigion |
| Blue | Svensson | Abertawe |
| Bradley | O'Keefe | Merthyr Tudful |
| Bradley | Powers | Abertawe |
| Brian | Roberts | Abertawe |
| Brian | Thomas | Caerdydd |
| Brian | Thomas | Powys |
| Brian | White | Caerffili |
| Brian | Williams | Powys |
| Candis | Penny | Powys |
| Carina | Davies | Powys |
| Carinder | Malhi | Surrey |
| Carl | Barber | Sir Ddinbych |
| Carl | Davies | Sir Benfro |
| Carl | Fowler | Ceredigon |
| Carl | Millard | Pontypridd |
| Carl | Roberts | Sir y Fflint |
| Carla | Williams | Conwy |
| Caroline | Nash | Gwynedd |
| Carys | Cousins | Abertawe |
| Casey | Dawes | Gwynedd |
| Cath | Viakos | Casnewydd |
| Catherine | Jones | Conwy |
| Catherine | Williams | Abertawe |
| Cathy | Auckballary | Bro Morgannwg |
| Cathy | Taylor | Ceredigion |
| Catrin A. | Jones | Abertawe |
| Ceris | Jones | Port Talbot |
| Charlotte | Azeppazdi | RCT |
| Charlotte | McMillan | Torfaen |
| Chloe | Aineomugisha | Blaenau Gwent |
| Chloe | Williams | Torfaen |
| Chloe | Cannon | RCT |
| Chris | Clarke | Powys |
| Chris | Kidner | Sir Gaerfyrddin |
| Chris | Marick | Bro Morgannwg |
| Chris | Power | Bro Morgannwg |
| Christopher | Davies | Caerffili |
| Christopher | Edwards | Castell-nedd |
| Christopher | Jones | Sir Gaerfyrddin |
| Christopher | Lischka | Sir Gaerfyrddin |
| Claire | Holly | Blaenau Gwent |
| Claire | Rasmussen | RCT |
| Clare | Whittle | Powys |
| Clive | Edwards | Gwynedd |
| Colin | Brighten | Sir Ddinbych |
| Colin | Jewkson | Caerffili |
| Colin | Price | Caerffili |

| | | |
|---|---|---|
| Connie | Phibben | Abertawe |
| Craig | Channel | Penybont |
| Craig | Grunan | Castell-nedd |
| Craig | Roberts | Abertawe |
| Cynthia | Singer | Caerffili |
| Daffyd | Williams | Sir Fynwy |
| Dafydd | Roberts | Gwynedd |
| Dan | Hiley | Powys |
| Daniel | Barnard | Merthyr Tudful |
| Daniel | Harris | RCT |
| Daniel | Lambert | Sir y Fflint |
| Daniel | Sheppard | Ceredigion |
| Danny | Coates | Sir Ddinbych |
| Danny | Couty | Sir Ddinbych |
| Danny | Millward | Sir Fynwy |
| Darren | Thomas | RCT |
| David | Baker | Ceredigion |
| David | Blow | Caerffili |
| David | Curwen | Penybont |
| David | Evans | Caerffili |
| David | James | Powys |
| David | Lewis | Powys |
| David | Reynolds | RCT |
| David | Sweeting | Bro Morgannwg |
| David | Twomey | Castell-nedd |
| David | Weir | Glasgow |
| David | Whittle | Powys |
| David | Wilberforce | Wrecsam |
| David | Williams | Abertawe |
| David R. | Bennett | Blaenau Gwent |
| Dawn | Gullis | Casnewydd |
| Debbie | Ford | Sir Ddinbych |
| Debbie | Lomas | Conwy |
| Debbie | Stride | Penybont |
| Debbie | Williams | Gwynedd |
| Deborah | Gould | Gwynedd |
| Derek | Howitt | Caerffili |
| Derek | May | Casnewydd |
| Donna | Yule | Abertawe |
| Dyfan | Roberts | Sir Ddinbych |
| Dylan M. | Pugh | Sir Gaerfyrddin |
| Ed | Lewis | Sir Benfro |
| Edward | Stanley | Powys |
| Eirwen | Lewis | Castell-nedd |
| Elaine | Jones | Powys |
| Elaine | Kelham | Blaenau Gwent |
| Eleanor | Morgan | Powys |
| Elinor | Williams | Gwynedd |
| Elizabeth | Attwood | Blaenau Gwent |
| Elizabeth | Broad | Powys |
| Elsa | Jones | Powys |
| Emily | Cleverly | Sir Gaerfyrddin |
| Emma | Ashley | Sir Ddinbych |
| Emma | Tamlin | Abertawe |
| Emma J. | Prosser | Penybont |
| Eric | Davies | Sir Fynwy |
| Evan | Hughes | Ynys Mon |
| Faye | Parrington | Ceredigion |
| Ffion | Poole | Caerffili |
| Ffion | Roberts | Penybont |
| Frances | Holmes | Gwynedd |
| Gareth | Cotton | Abertawe |
| Gareth | Humphries | Abertawe |
| Gareth | Humphreys | Abertawe |
| Gareth | James | RCT |
| Gareth | Sully | Casnewydd |
| Gareth | Walters | Caerffili |
| Garry | Edwards | Blaenau Gwent |
| Gary | Angell | Sir y Fflint |
| Gary | McGeary | Gwynedd |
| Gary | Spencer | Abertawe |
| Gavin | Gardner | Penybont |
| Gemma | Woodstock | Torfaen |
| George | Breeze | Caerdydd |
| Geraint | Eardley | Gwynedd |
| Gerraint | Jones-Griffiths | Blaenau Gwent |
| Gina | Caseley | Cwmbran |
| Glayne | Walker | Caerdydd |
| Gloria | John | RCT |
| Glyn | Williams | Sir y Fflint |
| Graeme | Roberts | Ynys Mon |
| Graham | Price | Port Talbot |
| Graham P. | Webb | Penybont |
| Grahame | Canning | Sir Ddinbych |
| Gregory J. | Cornet | Penybont |
| Griff | James | Ceredigion |
| Gwynfor | Lewis | Sir Ddinbych |
| Hannah | Futyan | Conwy |
| Hannah | Morgan | Sir Gaerfyrddin |
| Hannah | Thomas | Caerffili |
| Harold | Evans | Caerffili |
| Harry | Rendell | Gwynedd |
| Hayley | Price | Abertawe |
| Helen | Jones | Ceredigion |
| Helen L. | Price | Bro Morgannwg |
| Huw David | Jenkins | Sir Gaerfyrddin |
| Ian | Copping | Penybont |
| Ian | Swannick | Bro Morgannwg |
| Iris | Poole | Torfaen |
| Isobel | Harris | RCT |
| Ivy | Thomson | Penybont |
| Jade | Davies | RCT |
| Jade | Lee | RCT |
| James | Andrew | Gwynedd |
| James | Crowley | Sir Benfro |
| James | Dash | Sir Benfro |
| James | Lewis | Sir Ddinbych |
| James | Mothersole | Torfaen |
| James | Tyler | Sir Benfro |
| Jamie | Farr | Sir Fynwy |
| Jamie | Roberts | Caerffili |

| | | |
|---|---|---|
| Jane | Hawkins | Powys |
| Jane | Sturla | Sir y Fflint |
| Janice | Partridge | Caerdydd |
| Janis | Wyburn | Blaenau Gwent |
| Jason | Bayliss | Penybont |
| Jason | Morris | Ceredigion |
| Jason | Stone | Abertawe |
| Jeni | Snell | Casnewydd |
| Jenifer | Lewis | Penybont |
| Jenny | Sibley | Caerffili |
| Jeremy | de Wilton | Sir Benfro |
| Joan | Llewellyn | Penybont |
| Joanna | Jones | Caerdydd |
| Joanne | Herbert | Caerdydd |
| Joanne | Wilton | Sir Ddinbych |
| Joanne | Williams | Conwy |
| Jodie | Maher | Abertawe |
| John | Greenland | Sir Fynwy |
| John | Greig | Bro Morgannwg |
| John | Richards | Caerffili |
| John | Swift | Gwynedd |
| John | Williams | Powys |
| Jonathan | Brown | Bro Morgannwg |
| Jonathan | Richards | Sir Gaerfyrddin |
| Jonathan | Howard | Ceredigion |
| Jonathan | Tranter | Ynys Mon |
| Jonathan | Williams | Penybont |
| Jonny | Vann | Castell-nedd |
| Joseph | Andrews | Sir Benfro |
| Joseph | Blackley | Gwent |
| Josephine | Barber | Sir y Fflint |
| Joshua | Phelps | RCT |
| Joy | Davies | Castell-nedd |
| Joy | Deere | Castell-nedd |
| Julian | Hall | Abertawe |
| Julie | Devereux | Powys |
| Julie | Farmer | Penybont |
| June | Williams | Abertawe |
| Kaitlin | Matthews | Sir Gaerfyrddin |
| Kalvin | Jones | Ynys Mon |
| Kara | Williams | Castell-nedd |
| Karen | Hinton | Castell-nedd |
| Karen | Morgan | Bro Morgannwg |
| Karen | Newman | Sir y Fflint |
| Karen | Tallack | Abertawe |
| Karl | Denning | Torfaen |
| Karl | Gregory | Penybont |
| Kate | Bass | Sir Fynwy |
| Katherine | Wheeler | Sir Gaerfyrddin |
| Katie | Mears | Caerffili |
| Katie | Moore | Caerffili |
| Katie | Preece | Castell-nedd |
| Kay | Bevan | Sir Gaerfyrddin |
| Kelly | Ball | Casnewydd |
| Kelly | Rideout | Bro Morgannwg |
| Kelsey | Shaw | Sir Gaerfyrddin |
| Kenneth | O'Mahoney | Sir Benfro |
| Keri-Ann | Willetts | Caerffili |
| Kevin | Stone | Blaenau Gwent |
| Kurtis | Marshall | Bro Morgannwg |
| Kylie | Ashill | Torfaen |
| Kylie | Steadman | Powys |
| Laura | Powell | Powys |
| Laura | Wilson | Sir Fynwy |
| Lauren | Jones | Bro Morgannwg |
| Lauren | Howells | RCT |
| Lee | Roberts | Conwy |
| Les | George | Caerffili |
| Lesley | Chick | Gwynedd |
| Lesley | Crosbie | Sir Fynwy |
| Lesley | Reed | RCT |
| Lewis | McDougall | Sir Gaerfyrddin |
| Linda | Aylward | Gwynedd |
| Linda | Evans | Abertawe |
| Linda | Tonks | Casnewydd |
| Lindsey | Thomas | Ceredigion |
| Lisa | Barker | Abertawe |
| Lisa | Davies | Castell-nedd |
| Lisa | Pickard | Caerdydd |
| Llinos | Roberts | Gwynedd |
| Lloyd | Crowley | Powys |
| Lloyd | Jones | Conwy |
| Lois | Hughes | RCT |
| Louise | Armstrong | Abertawe |
| Louise | Weaver | Sir Fynwy |
| Lowri | E. Hughes | Conwy |
| Lucy | Harries | Sir Fynwy |
| Lucy | Hinksman | Sir Benfro |
| Luke | Powell | Torfaen |
| Luke | Thomas | Torfaen |
| Lydia | Cole | Powys |
| Lynda | Withers | Torfaen |
| Lyndsay | Howard | Sir Fynwy |
| Lynne | Evans | RCT |
| M | Hughes | Sir Benfro |
| Mair | Ashton | RCT |
| Malcolm | McGuire | Sir Ddinbych |
| Marc | Williams | Caerffili |
| Margaret | Evans | Abertawe |
| Mari | Rowlinson | Gwynedd |
| Mark | Banks | Conwy |
| Mark | Firkin | Abertawe |
| Mark | Lewis | Casnewydd |
| Mark | Owens | Abertawe |
| Mark | Sibley | Caerffili |
| Mark | Thomas | Gwent |
| Mark | Williams | Caerffili |
| Mark A. | Barnard | Penybont |
| Martin E. | Matthews | Sir Benfro |
| Mary | Hayman | Bro Morgannwg |
| Mathew | Purnell | Caerdydd |

| | | |
|---|---|---|
| Matthew | Archer | Castell-nedd |
| Matthew | Heit | Castell-nedd |
| Matthew | Jones | Castell-nedd |
| Matthew | Lack | Bro Morgannwg |
| Matthew | McDonald | Conwy |
| Melanie | Jones | Conwy |
| Melville | Harding | Blackwood |
| Michael | Allcock | Caerdydd |
| Michael | Cain | Sir Ddinbych |
| Michael | Jones | Penybont |
| Michael | Jones | Gwynedd |
| Michael | Rees | Caerffili |
| Michael | Chick | RCT |
| Michelle | Manning | Caerffili |
| Michelle | Williams | Conwy |
| Mike | Power | Castell-nedd |
| Molly | Matthews | Caerdydd |
| Morgan | Llwyd Jones | Caerffili |
| Myfanwy | Andrews | Powys |
| Myfanwy | Jones | Ynys Mon |
| Naomi | Lee | Abertawe |
| Natalie | Davies | Castell-nedd |
| Nathan | Odem | Gwynedd |
| Neil | Bufton | Powys |
| Neil | Williams | Abertawe |
| Nicola | Lewis | Caerffili |
| Nicola | Roberts | Abertawe |
| Nicole | Bird | Caerffili |
| Nigel | Turner | Sir Fynwy |
| Norman | Williams | Penybont |
| Olly | Havard | Sir Fynwy |
| Ope | Abidogun | Casnewydd |
| Paul | Coles | Penybont |
| Paul | Donnelly | Caerdydd |
| Paul | Hughes | Caerffili |
| Paul | Jones | Abertawe |
| Paul | Lewis | Penybont |
| Paul | Lewis | Gwynedd |
| Paul | Pendlebury | Penybont |
| Paul | Rowlands | Penybont |
| Paul | Tucker | Sir Gaerfyrddin |
| Peter | Allen | Ceredigion |
| Peter | Gauterin | Wrexham |
| Peter | Herniman | Caerffili |
| Peter | Jones | Abertawe |
| Peter | Litten | Sir Ddinbych |
| Peter | MacAndrew | Sir Ddinbych |
| Peter | Marsh | Conwy |
| Peter | Powell | Sir Fynwy |
| Peter | Thomas | Gwynedd |
| Philip | Moors | Conwy |
| Philip | Moreland | Conwy |
| Phillip | Morgan | RCT |
| Phillip | Williams | Penybont |
| Phillip | Woolley | Powys |
| Phillip Evan | Collins | Sir Gaerfyrddin |
| Rachel | Bewick | RCT |
| Rachel | Howells | RCT |
| Raymond | Byles | Penybont |
| Rebecca | Chick | RCT |
| Rebecca | Jones | RCT |
| Rebecca | Jones | Gwynedd |
| Rebecca | L. Roberts | Gwynedd |
| Rebecca | Morgan | Powys |
| Rebekah | Prosser | Penybont |
| Rhian | Evans | Powys |
| Rhiannon | Currie | Casnewydd |
| Rhiannon | Griffiths | Sir Benfro |
| Rhiannon | Isaac | Penybont |
| Rhiannon | Rees | Abertawe |
| Richard | Batchelor | Abertawe |
| Richard | Dunlop | Penybont |
| Richard | Horrigan | Caerdydd |
| Richard | Taylor | Penybont |
| Richard | Taylor | RCT |
| Richard | Williams | Abertawe |
| Richard J. | Harmer | Sir Benfro |
| Richard J. | Redmond | Conwy |
| Robert | Morris | Castell-nedd |
| Ron | Hellman | Blaenau Gwent |
| Rory | Westhoff | Sir Gaerfyrddin |
| Ros | Jacobson | Torfaen |
| Rosie | W.Jones | Powys |
| Ross | Thomas | Sir Ddinbych |
| Rowena M. | Williams | Gwynedd |
| Ruth | Barker | Sir Gaerfyrddin |
| Ruth | Lewis | Sir Gaerfyrddin |
| Sadie | Williams | RCT |
| Sam | Evans | Gwent |
| Sam | Jones | Penybont |
| Sam | Phillips | RCT |
| Sam | Taylor | RCT |
| Samantha | Hall | Sir Gaerfyrddin |
| Samantha | Hupton | Ynys Mon |
| Samantha | Stevenson | Bro Morgannwg |
| Samantha | Taylor | RCT |
| Samantha | Mitchell | Casnewydd |
| Sammy | Tahramanis | Blaenau Gwent |
| Sandra | Tinklin | Sir Fynwy |
| Sarah | Chamberlain | Ynys Mon |
| Sarah | Duke | Torfaen |
| Sarah | Griffiths | Sir Fynwy |
| Sarah | Rosser | Sir Fynwy |
| Sarah | Thornton | Gwynedd |
| Savvas | Tahramanis | Blaenau Gwent |
| Scot | Wilson | Sir y Fflint |
| Scott | Weetman | Caerffili |
| Sean | Whelan | Penybont |
| Shahid | Afsar | Caerdydd |
| Sharon | Austin | Penybont |
| Sharon | Blow | Caerffili |

| | | |
|---|---|---|
| Sharon | Cochrane | Caerffili |
| Shaun | Roberts | Sir Ddinbych |
| Shaun | Heath | Sir Ddinbych |
| Shayna | Harris | Conwy |
| Sheena | Griffiths | Sir y Fflint |
| Sheila | Moors | Conwy |
| Sheila | Shore | Gwynedd |
| Shirley | Cleever | Ynys Mon |
| Simon | Fernandez | Sir Ddinbych |
| Simon | Rice | Sir Gaerfyrddin |
| Simon | Richards | Caerdydd |
| Sophie | Hinksman | Sir Benfro |
| Sophie | Morgan | Blaenau Gwent |
| Sophie | Scheeres | Caerdydd |
| Sophie | Wakeling | Torfaen |
| Stacey | Traylor | Bro Morgannwg |
| Stephen | Knight | Sir Fynwy |
| Stephen | Miles | Casnewydd |
| Stephen | Thomas | Sir Ddinbych |
| Stephen | West | Caerdydd |
| Stephen | Richardson | RCT |
| Steve | Pocknell | Sir Gaerfyrddin |
| Steve | Smith | Torfaen |
| Steve | Williams | Caerdydd |
| Steven | Davies | RCT |
| Steven | Morgan | Sir Fynwy |
| Steven | Stone | Merthyr Tudful |
| Stuart | Paget | Penybont |
| Susan | Davey | Cwmbran |
| Susan | Haines | Cwmbran |
| Susan | Mitchell | Casnewydd |
| Susan | Shaw | Penybont |
| Susan M. | Saunders | Torfaen |
| Tanwen | Bryn Lloyd | Gwynedd |
| Teri-Anne | Payne | RCT |
| Thomas | Oakes | Ceredigion |
| Thomas | Watling | RCT |
| Tim | Davies | Powys |
| Tim | Hallet | Torfaen |
| Tina | Larner | Penybont |
| Toby | Richardson | Abertawe |
| Tom | Spencer | Sir Ddinbych |
| Toni | James | Blaenau Gwent |
| Tony | Griffiths | Wrexham |
| Tracey | Cosgrove | Casnewydd |
| Tracey | Cridland | Caerffili |
| Tracey | Smith | Sir Ddinbych |
| Tracy | Austin | Ynys Mon |
| Trudi | Owen | Ynys Mon |
| Victoria | Waller | Ynys Mon |
| Vicky | Lanfear | Castell-nedd |
| Wendy | Gough | Sir Benfro |
| Wendy | Thomason | Sir Gaerfyrddin |
| William | Bennett | Castell-nedd |
| William | Jones | Penybont |
| William | Young | Ynys Mon |
| William Bryn | Owen | Sir Ddinbych |
| Yolande | Scott | Gwynedd |
| Yvonne | Williams | Ynys Mon |
| Zoe | Coleman | Casnewydd |

# Aelodau cyswllt

| | |
|---|---|
| Adam | Wakeford |
| Alison | Kendrick |
| Charlotte | Saunders |
| Charlotte | Azzepazdi |
| Christine | Martin |
| Daniel | Bamsey |
| Debbie | Kirkman |
| Ian | Kinsella |
| Jack | Cavanagh |
| Jackie | Hughes |
| Jan | Walmsley |
| Jean | Gregson |
| Jill | Milligan |
| Julie | Davies |
| Karen | Chandler |
| Karin | Phillips |
| Kay | Wood |
| Lee | Ellery |
| Lorraine | Linford |
| Mark | John-Williams |
| Rachel | Philbrick |
| Sue | Oakley |
| Thomas | Oakley |



# Aelodau grŵp

Standards of Wrexham Services (SWS)
Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf
Ein Llais, Ein Dewis
Pobl yn Gyntaf Caerffili
Your Voice Advocacy
Pobl yn Gyntaf Sir Caerfyrddin
NWAAA
Pobl yn Gyntaf Merthyr Tudful
Pobl yn Gyntaf Bro Morgannwg
Pobl yn Gyntaf Blaenau Gwent
Dewis Centre for Independent Living
Pobl yn Gyntaf Caerdydd
Cyswyllt Conwy

Llais Cenedlaethol
Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

All Wales People First

The National Voice of People
with Learning Disabilities in Wales